Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

Mae'r asedau sefydlog wedi eu dangos ar werth yswiriant yn hytrach na chost prynu

Beth yw'r mater?

Mae wedi dod i'n sylw bod asedau sefydlog wedi cael eu cynnwys ym mlwch 9 ar swm prisiant. Dylai pob ased gael ei gynnwys ar bris cost.

Ni ddylai cynghorau addasu asedau sydd wedi'u datgelu ar y ffurflen flynyddol ar gyfer ailbrisiadau, dibrisiant neu amhariad. Yr unig bethau ddylai symud ar asedau yw cost ychwanegiadau neu gost gwerth unrhyw warediadau.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nid yw'r driniaeth gyfrifo'n cydymffurfio ag arferion priodol.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn nodi y dylai'r holl asedau gael eu dal ar bris cost. Yn y dyfodol dylai'r awdurdod llai adolygu'r Canllaw i Ymarferwyr cyfredol i sicrhau ei fod yn rhoi cyfrif am asedau yn gywir.

Nid oes disgwyl i werth cost asedau newid oni bai bod ased yn cael ei waredu neu ei sgrapio.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:29 Medi 2016